

Polisi Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol

Medi 2026

Cynnwys

1.	Cwmpas	3
1.1	Diffiniadau	3
1.2	Y ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol	4
1.3	Eithriadau unedau/cydrannau	4
1.4	Safonau Cymhwysedd (Cymwysterau Galwedigaethol)	5
2.	Recriwtio gydag uniondeb	5
3.	Sut i wneud cais am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol	5
4.	Statws cais	6
5.	Papurau wedi'u haddasu	6
5.1	Trefniadau papurau wedi'u haddasu wedi'u dirprwyo i ganolfannau	6
6.	Apeliadau	7
7.	Cyngor pellach	7
8.	Rheoli fersiynau a dyddiad adolygu'r polisi	7

Polisi Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol

1. Cwmpas

Polisi i ganolfannau yw hwn i esbonio'r gofynion trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl gymwysterau CBAC, gan gynnwys y rhai dan frand Eduqas.

Fel aelod o'r Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC), mae CBAC yn dilyn canllawiau'r CGC yn y ddogfen '[Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig – Cyd-gyngor Cymwysterau](#)'. Dilyniir y canllawiau hyn gan holl Gyrff Dyfarnu'r CGC ac mae'n sicrhau bod y gofynion wedi'u cymhwyso'n gyson. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â chanllawiau'r CGC ac unrhyw ganllawiau penodol i bynciau sydd i'w cael yn y manylebau. Mae'n ofynnol i ganolfannau gadw at ofynion yr holl ddogfennau.

Mae'r gofynion yn adlewyrchu dull canolfan gyfan mewn perthynas â threfniadau mynediad ac addasiadau rhesymol. Cyfrifoldeb pennaeth y ganolfan, aelodau'r uwch dîm arwain, y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Arbennig/Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol*, ac aseswyr yw bod yn ymwybodol o'r gofynion.

** lle nad yw hon yn rôl wedi'i dynodi yn y ganolfan, gall fod yn unigolyn cyfatebol priodol sy'n gyfrifol am ystyried anghenion ymgeiswyr a sefydlu trefniadau mynediad.*

1.1 Diffiniadau

Yng nghyd-destun arholiadau ac asesiadau, mae addasiad rhesymol yn unrhyw drefniant cefnogi sy'n lleihau neu'n dileu effaith cyflwr iechyd, anabledd neu anhawster dysgu ymgeisydd. Gall addasiadau rhesymol fod yn drefniant pwrpasol, neu fod yn ffordd o gefnogi wedi'i ddiffinio ymlaen llaw yn seiliedig ar anghenion unigol y dysgwr, megis amser ychwanegol neu ysgrifennydd/darllenydd. Cyfeirir at y mathau hyn o gefnogaeth wedi'u diffinio ymlaen llaw fel trefniadau mynediad. Felly, mae trefniadau mynediad yn fath o addasiad rhesymol.

Trefniadau Mynediad

Mathau o gefnogaeth wedi'u diffinio ymlaen llaw y cytunir arnynt **cyn** asesiad yw trefniadau mynediad. Maent yn galluogi ymgeiswyr sydd â gofynion penodol, megis anghenion dysgu ychwanegol, anghenion addysgol arbennig, anableddau neu anafiadau dros dro i gael mynediad at yr asesiad ac i ddangos yr hyn maent yn eu wybod a beth maent yn gallu ei wneud heb newid gofynion yr asesiad.

Addasiadau Rhesymol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod CBAC yn gwneud addasiadau rhesymol lle byddai ymgeisydd, sydd ag anabledd o fewn yr ystyr a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â rhywun nad oes ganddo anabledd. Mae'n ofynnol i CBAC gymryd camau rhesymol i oresgyn yr anfantais honno. Gall addasiad rhesymol i berson fod yn unigryw i'r unigolyn hwnnw ac efallai na fyddai wedi'i gynnwys yn y rhestr o drefniadau mynediad sydd ar gael.

Mae Adran 6 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel 'nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar allu rhywun i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd'.

Tystiolaeth o Angen

Bydd y dystiolaeth o angen yn amrywio gan ddibynnu ar yr anabledd a'r trefniant (trefniadau) mynediad y gwneir cais amdano (amdanynt). Mae Pennod 5 [canllawiau'r CGC](#) yn nodi beth yw'r dystiolaeth graidd/tystiolaeth o angen. Mae'n bwysig i hyn adlewyrchu trefn arferol yr ymgeisydd o weithio.

1.2 Y ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol

Bydd y ddyletswydd i CBAC wneud addasiad rhesymol yn berthnasol lle byddai ymgeisydd anabl dan anfantais sylweddol o gael trefniadau asesu o gymharu ag ymgeisydd nad oes ganddo anabledd. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n ofynnol i CBAC gymryd camau rhesymol i osgoi'r anfantais honno.

Nid yw'n ofynnol i CBAC wneud addasiadau i'r safon academaidd neu unrhyw safon arall sy'n cael ei gymhwyso wrth gynnal arholiad/asesiad.

Ni chaiff addasiad ei gymeradwyo os yw'n golygu bod:

- costau afresymol i'r corff dyfarnu;
- cyfnodau amser afresymol; neu
- ei fod yn effeithio ar ddiogelwch a manwl gywirdeb yr asesu.

Mae hyn oherwydd nad yw'r addasiad yn un 'rhesymol'.

Lle mae gan y ganolfan ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol, **ni ddylai** godi unrhyw ffi ychwanegol ar ymgeisydd anabl mewn perthynas â'r addasiad neu'r cymorth.

Mae'n rhaid i ganolfannau sicrhau y gellir cyflwyno addasiadau wedi'u cymeradwyo i ymgeiswyr.

1.3 Eithriadau unedau/cydrannau

Lle mae anabledd ar ymgeisydd sy'n atal yr ymgeisydd hwnnw rhag ymgymryd ag asesiad, ac nad oes modd hwyluso'r mynediad hwnnw drwy wneud unrhyw fath arall o addasiad rhesymol, yna gellir ystyried eithriad fel Trefniant Mynediad yn unol ag adran 5.17 yng [nghanllawiau'r CGC](#). Rhaid i CBAC gymeradwyo hyn cyn yr asesiad, nid yw'n rhywbeth y dylid gofyn amdano ar adeg yr asesiad.

Ni chaniateir eithriad uned neu gydran lle mae hyn yn tanseilio uniondeb y cymhwyster, gan gynnwys lle y byddai unrhyw safonau cymhwysedd wedi'u dirymu o wneud unrhyw eithriad.

1.4 Safonau Cymhwysedd (Cymwysterau Galwedigaethol)

Diffinnir safon cymhwysedd fel safon academiaidd, meddygol neu unrhyw gymhwysedd arall a ddefnyddir at y diben o benderfynu p'un ai a oes gan berson lefel benodol o gymhwysedd neu allu ai peidio. Gall CBAC ddefnyddio safonau cymhwysedd yn achos person anabl, ac nid yw'n bosibl trefnu'r un mynediad bob amser i ymgeisydd y mae ei amhariad yn effeithio ar gymhwysedd a brofir.

Bydd dewis eang o addasiadau rhesymol ar gael, fodd bynnag mae rhai eithriadau pwysig lle byddai safonau cymhwysedd yn cael eu dirymu pe bai addasiad yn cael ei wneud. Mae angen ystyried yn ofalus addasiadau rhesymol i gymwysterau sy'n meddu ar drwydded i ymarfer er mwyn peidio dirymu'r drwydded. Dylai canolfannau adolygu [canllawiau'r CGC](#) (pennod 2) yn y lle cyntaf a cheisio cyngor pellach gan CBAC lle bo angen gwneud hynny.

2. Recriwtio gydag uniondeb

Mae'n rhaid i ganolfannau recriwtio gydag uniondeb. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr y wybodaeth a'r cyngor cywir ar y cymhwyster/cymwysterau a ddewisant ac y bydd y cymhwyster/cymwysterau'n bodloni eu hanghenion. Mae'n rhaid i'r broses recriwtio gynnwys y ganolfan yn asesu anghenion cefnogi pob darpar ddysgwr. Mae'n rhaid i'r ganolfan lunio barn broffesiynol y gellir ei chyfiawnhau am botensial y dysgwr i gwblhau'r asesiad(au) yn llwyddiannus ac i ennill y cymhwyster. Mae'n rhaid i asesiad y ganolfan adnabod, lle y bo'n briodol, y gefnogaeth a fydd ar gael i'r dysgwr i hwyluso mynediad i'r cymhwyster/cymwysterau.

Lle mae'r broses recriwtio yn nodi na fydd y dysgwr efallai'n gallu dangos cyrhaeddiad ac felly ennill cyrhaeddiad ym mhob asesiad ar gyfer y cymhwyster a ddewiswyd, rhaid i'r ganolfan gyfathrebu hyn yn glir i'r dysgwr ac i'w riant/gofalwr (lle y bo'n briodol). Efallai y bydd dysgwr yn penderfynu parhau i astudio cymhwyster a pheidio â chael ei gofrestru ar gyfer yr asesiad cyfan neu ran ohono.

3. Sut i wneud cais am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol

Ni all CBAC dderbyn ceisiadau gan ymgeiswyr na rhieni/gofalwyr. Mae'n rhaid i'r ganolfan wneud pob cais a chefnogi'r cais hwnnw. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r meini prawf cyhoeddedig a dylai'r dystiolaeth ategol lawn fod ar gael.

Dylai ymgeiswyr preifat gysylltu â'r ganolfan gofrestru er mwyn iddynt allu cyflwyno cais ar ran yr ymgeisydd preifat.

Mae'n rhaid gwneud pob cais mor gynnar â phosibl, gellir gwneud hyn unwaith y bydd y cwrs wedi dechrau, gan gyfateb i'r terfynau amser a gyhoeddwyd. Cyhoeddir terfynau amser pob cyfres yn y ddogfen [Dyddiadau Allweddol](#) ar wefan CBAC. Nid oes sicrwydd y bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y terfyn amser yn cael eu prosesu na'u cytuno cyn asesiad.

- Defnyddir llwyfan Trefniadau Mynediad Ar-lein (TMA) i wneud ceisiadau, ac mae modd cyrchu'r llwyfan hwn drwy safle [Porth CBAC](#), neu safle diogel sefydliadau dyfarnu CGC eraill.

Mae canllaw defnyddiwr cam wrth gam i Trefniadau Mynediad Ar-lein ar gael ar dudalen gartref Porth CBAC.

4. Statws cais

Fel arfer, bydd TMA yn cynnig un ymateb awtomataidd sef 'wedi'i gymeradwyo' neu 'heb ei gymeradwyo'.

Gall canolfan gysylltu â Thîm Gofynion Arbennig CBAC i holi am ganlyniad trefniant mynediad. Os na chymeradwyir cais, gall canolfan gyfeirio hyn i'w adolygu ymhellach gan Dîm Gofynion Arbennig CBAC drwy ddewis 'CYFEIRIO AT Y CORFF DYFARNU'.

5. Papurau wedi'u haddasu

Gall canolfannau gyflwyno archeb ar gyfer papur wedi'i addasu, i helpu ymgeiswyr sydd ag anghenion ychwanegol penodol. Caiff papurau wedi'u haddasu eu paratoi'n unigol i ymgeiswyr y mae trefniadau mynediad eraill yn anaddas ar eu cyfer.

Rhaid cyflwyno archebion gan ddefnyddio'r adnodd ar-lein Trefniadau Mynediad Ar-lein y CGC, y mae modd ei ddefnyddio ar Borth Gweinyddu'r Canolfannau y CGC (CAP) drwy wefan ddiogel CBAC. Mae'r cyfleuster hwn ar gael i ddeiliad prif gyfrif y ganolfan yn unig (y Swyddog Arholiadau, fel arfer).

Mae CBAC yn anelu at ddosbarthu papurau wedi'u haddasu oddeutu 7-10 diwrnod cyn dyddiad swyddogol yr arholiad.

Cyhoeddir terfynau amser cyflwyno archebion ar gyfer papurau wedi'u haddasu yn y ddogfen [Dyddiadau Allweddol](#) ar wefan CBAC. Os bydd canolfan yn methu'r dyddiad cau bydd TMA yn dal i dderbyn archebion ar gyfer papurau wedi'u haddasu, ond mae'n hanfodol bod canolfan yn gwneud cais am bapur cyn gynted â phosibl ar ôl cael gwybod bod y dyddiad cau wedi'i fethu. Efallai na fydd yn bosibl darparu ar gyfer archebion hwyr bob amser, mae'n mynd i ddibynnu ar ba mor agos yw'r arholiad ar yr amserlen.

5.1 Trefniadau papurau wedi'u haddasu wedi'u dirprwyo i ganolfannau

Anogir canolfannau i ddefnyddio copi PDF o'r papur cwestiynau safonol i sicrhau gwell ansawdd argraffu a lleihau'r posibilrwydd o wall dynol wrth goladu a styffylu. Gall canolfannau gyrchu copi PDF o'r papurau cwestiynau safonol o safle Porth CBAC hyd at 60 munud cyn yr amser cychwyn cyhoeddedig yn achos y trefniadau canlynol wedi'u dirprwyo i ganolfannau:

- llungopïo ar bapur lliw a/neu
- fwyhau o A4 i A3

Fel arall, gall canolfannau dynnu pecynnau papurau cwestiynau o gyfleuster storio diogel y ganolfan a'u hagor yn yr ystafell ddiogel hyd at 90 munud cyn amser cychwyn cyhoeddedig yr arholiad ar gyfer y trefniadau a amlinellir uchod.

Mae'n rhaid i ganolfannau wirio gosodiadau argraffu lleol yn ofalus wrth argraffu neu lungopïo papurau cwestiynau: cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod papur cwestiynau'r arholiad yn cael ei argraffu/llungopïo i safon uchel.

Gwaherddir ail-deipio papur cwestiynau neu ei addasu mewn unrhyw ffordd arall, ac mae hyn yn gyfystyr â chamymddwyn.

6. Apeliadau

Gall canolfan gyflwyno apêl ffurfiol yn erbyn penderfyniad trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol. Mae'n rhaid cyflwyno hyn yn ysgrifenedig i CBAC, o fewn 14 diwrnod calendr i gael ei hysbysu o'r penderfyniad gan CBAC ac yn unol â Chanllawiau Apeliadau'r [CGC](#) a [CBAC](#).

7. Cyngor pellach

Dylai canolfannau gyfeirio at y polisi hwn ac at [ganllawiau'r CGC](#) yn y lle cyntaf.

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â phapurau wedi'u haddasu, dylai canolfannau gyfeirio at y ddogfen [Cwestiynau Cyffredin](#) ar wefan CBAC neu gysylltu â modifiedpapers@wjec.co.uk.

Os oes angen cefnogaeth neu gyngor pellach ynghylch trefniadau mynediad neu addasiadau rhesymol, yna gall canolfannau gysylltu â Thîm Gofynion Arbennig CBAC naill ai dros e-bost at specialrequirements@wjec.co.uk, neu ffonio 02920 265 155.

8. Rheoli fersiynau a dyddiad adolygu'r polisi

Rheoli fersiynau	Dyddiad	Perchennog	Newidiadau	Adolygiad Nesaf
1.0	Medi 2026	Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Polisi a Rheoleiddio	Creu dogfen Polisi	Gorffennaf 2027